# Llwybrau Cerdded Treftadaeth

Dewch i ddarganfod Aberdaugleddau trwy gyfres o dri llwybr treftadaeth newydd, yn ardal y glannau Aberdaugleddau, a grëwyd gan bobl ifanc yr ardal.

Crëwyd tri llwybr cerdded treftadaeth sy'n dathlu straeon a naws am le ein tref, i bawb eu mwynhau.  Cafodd prosiect a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac a gydlynwyd gan Milford Youth Matters, ei lansio yn 2021, a gofynnwyd i ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau ymchwilio i straeon am 'Ein Hafan Hanesyddol', 'Teyrnas Ynni' a'r 'Dyfrffyrdd', sef y themâu allweddol sy'n gwneud Aberdaugleddau yn lle mor unigryw.

Fe wnaeth y criw ifanc waith gwych, nid yn unig o hel straeon diddorol am hanes Aberdaugleddau, ond hefyd am wneud gwaith dylunio creadigol tu hwnt i gyd-fynd â'u hanesion. Aeth panel o feirniaid ati i adolygu 30 a mwy o geisiadau, a dewiswyd detholiad ohonynt i'w cynnwys ar ein gwefan. Rydym yn falch o ddathlu straeon Aberdaugleddau gyda'r tri Llwybr Cerdded Treftadaeth ar hyd y glannau, a rhannu'r stori lawn ar ein gwefan.

## Teyrnas Ynni

Aberdaugleddau yw porthladd ynni mwyaf y DU. Mae'r ardal wedi gweld newidiadau mawr ers 1960 – dilynwch lwybr y Deyrnas Ynni i ddysgu mwy. Sylwch ar faneri melyn ar y polion lamp sy'n croesi Mackerel Quay. Mae arwyddion bach ar yr un lampau yn cynnwys codau QR, a fydd yn eich tywys i'r straeon llawn a grëwyd gan bobl ifanc dawnus Ysgol Aberdaugleddau.

**1 – Mae Popeth Yma!**

Ewch ar daith o'r gorffennol i'r presennol a gweld beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig yn Aberdaugleddau! Dysgwch am y diwydiant ynni ar garreg ein drws a sut y bydd yn newid y byd er gwell!

Shw'mae a chroeso i Aberdaugleddau, Sir Benfro. Byddaf yn mynd â chi ar daith fer drwy ein tref fach - ddoe, heddiw ac yfory. Mae gan fy nheulu gryn dipyn o gysylltiadau hanesyddol pwysig â'r cyfnodau pwysig hyn mewn hanes. Dechreuaf gyda Dyfrffordd Aberdaugleddau, un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd ar 26 metr.

Mae rhwydwaith yr hafan yn enghraifft wych o system 'ria' gwledydd Prydain, sef dyffryn afon wedi ei foddi ar ddiwedd Oes yr Iâ. Mae gennym 200 milltir o arfordir trawiadol, sy'n cynnig cysgod a chartref i lu o rywogaethau bywyd gwyllt a phlanhigion. Fe wnaeth pennaeth Llychlynnaidd warchod ei fflyd o 23 o longau yn yr Hafan yn 854OC, ac oddi yma y lansiodd Oliver Cromwell ymosodiad ar Iwerddon yn 1649. Mae nwyddau masnach calchfaen a glo wedi mynd a dod o'r harbwr. Dyma ganolfan bwysig lluoedd America adeg yr Ail Ryfel Byd, a'u paratôdd ar gyfer glaniadau D-Day yn ddiweddarach.

Dyfrffordd y Ddwy Gleddau yw cartref porthladd ynni mwyaf yn y DU, sy'n trafod dros 30 miliwn tunnell o gargo y flwyddyn. Dechreuodd y diwydiant olew cynhyrchiol yma yn 1961 pan agorodd gwmni BP ei orsaf bwmpio gyntaf yn Angle, (roedd fy hen dad-cu yn gapten ar dancer BP), cyn ychwanegu pedair purfa yn y 60au a'r 70au.

Ym mhurfa olew Amoco yn 1983, bu tân damweiniol yn nhanc rhif 11 a oedd yn dal dros 46,000 tunnell o olew. Bu'n llosgi am ddeuddydd cyfan, a galwyd diffoddwyr tân o sawl gorsaf a'r Llu Awyr Brenhinol i daclo'r fflamau. Roedd fy nhad-cu ar y rheng flaen am ddeuddydd. Roedd gennym burfeydd Texaco, Gulf ac Esso hefyd. Roedd argyfwng yn yr Aifft yn golygu ei bod hi'n rhatach iddyn nhw gludo olew crai ar danceri mawr, ond roedd angen dyfrffyrdd dwfn arnyn nhw. Mae gennym ni hynny yn Aberdaugleddau!

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND
Milford Waterfront Where the land meets the sea

Ar hyn o bryd, ni sydd â'r storfa fwyaf o gyflenwadau nwy ac olew yn y DU. Cwmnïau Puma Energy, Valero, South Hook LNG a Dragon LNG sy'n berchen ar y safleoedd heddiw. Mae nwy naturiol hylifedig (LNG) yn teithio o sawl gwlad dramor i Aberdaugleddau, rwy'n defnyddio Qatar fel esiampl gan fod fy chwaer yn byw yno. Mae eu tanceri'n cario nwy LNG 6,140 milltir forol, sy'n cymryd tua 18 diwrnod i gyrraedd safle LNG De Hook. Wrth i gyflenwadau nwy naturiol ostwng, mae nwy naturiol a fewnforir yn chwarae rhan bwysig iawn o'n rhaglen ynni adnewyddadwy glân.

Cwch pysgota o'r enw 'Sybil', o Lowesoft yn Lloegr, oedd y cwch cyntaf yn ein doc pysgota yn 1888. Mae'r diwydiant wedi newid yn aruthrol ar hyd y blynyddoedd. Roedd fy nhad-cu a'm hen dad-cu yn gweithio yma, ac rwy'n eu cofio nhw'n dweud y gallech chi fynd o un pen o'r doc i'r llall trwy gamu ar gychod pysgota lleol yn unig. Heddiw, dyma'r porthladd pysgota mwyaf yng Nghymru o hyd.

Bob yn ail flwyddyn ar y Marina – cynhelir digwyddiad agoriadol "Wythnos Bysgod Sir Benfro" gyda stondinau, lluniaeth ac adloniant anhygoel - mae'n wythnos wych. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd yng ngofal rhai o'n cyrchfannau mwyaf poblogaidd, ac maen nhw'n werth eu gweld gyda golygfeydd godidog, aberoedd, bryniau, cymoedd a choetiroedd heb eu hail. Neu ewch ar wibdaith cwch i un o'n hynysoedd - Sgomer i weld y palod, Sgogwm i fwynhau'r warchodfa natur forwrol, Ynys Dewi i ymweld â gwarchodfa'r RSPB, a Gwales sy'n gynefin i boblogaeth o huganod a'r unig hyddgre yn Sir Benfro.

Mae angen i bob un ohonom wneud ein rhan ar gyfer y dyfodol a helpu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyda materion cynaliadwyedd, rheoli hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr. Mae'r parc yn gartref i dros 13 o ardaloedd cadwraeth, gwyddonol, morol a natur arbennig. Cefnogir Ynni Morol Cymru gan 8 porthladd strategol yn y gogledd, y de a'r gorllewin. Diolch i gyllid yr UE, dyma brosiect cenedlaethol Cymru ar gyfer parthau arddangos ffrydiau llanw a thonnau dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae'n torri tir newydd ym maes ynni morol.

Dychmygwch yr olygfa erbyn 2027 o bosib, pan allem weld fferm wynt arnofiol gyntaf Erebus oddi ar arfordir Sir Benfro. (Ffaith i chi: Efallai'ch bod yn adnabod Erebus fel duw anhrefn a thywyllwch - cafodd llong ryfel Erebus (o ble y daeth yr enw gobeithio) ei hadeiladu yn iard longau Penfro yn 1826!).

Mae paneli solar a thyrbinau gwynt i'w gweld ar hyd a lled Sir Benfro. Adeiladwyd y fferm solar gyntaf yn Sir Benfro yn 2014, a dim ond 8 wythnos a gymerodd i'w chwblhau. Mae'r Gogledd eisoes yn gartref i'r pumed fferm wynt alltraeth fwyaf yn y byd, sef Gwynt y Môr - 160 o dyrbinau gwynt 576 megawat a gwblhawyd yn 2015.

Mae Aberdaugleddau'n rhan bwysig o'r sector ynni, ac mae'r cyfan gennym ar garreg ein drws!

**2 – Dyfrffydd gwyllt y gwych**

Mae'r cwch pysgota yn arwydd o orffennol Aberdaugleddau, ac fel un o borthladdoedd pysgota mwyaf y DU mae'n parhau i fod yn rhan enfawr o'i phresennol. Mae'r dref yn edrych ymlaen at ddyfodol adnewyddadwy ac at fod yn gyrchfan wych i ymwelwyr o bell ac agos. Dysgwch ragor am yr holl elfennau hyn a mwy.

Mae'r cwch pysgota yn cynrychioli gorffennol Aberdaugleddau. Ar 28 Medi 1888, llong bysgota ager o'r enw 'Sybil' oedd y gyntaf i gyrraedd Dociau Aberdaugleddau. A dyma gychwyn cyfnod Aberdaugleddau fel un o borthladdoedd pysgota mwyaf y DU. Gydol hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd trigolion Aberdaugleddau yn brolio bod 'pob diwrnod o'r wythnos yn ddiwrnod cyflog' wrth i'r pysgotwyr wario eu hincwm yn y dref. Fel un o'r harbyrau naturiol dyfnaf yn y byd, mae'n borthladd llongau prysur dros ben.

Porthladd Aberdaugleddau yw porthladd ynni mwyaf y DU, sy'n gallu darparu 30% o ofynion nwy y DU. Mae'r ddyfrffordd yn gwasanaethu purfa a therfynfa olew Valero, Puma Energy, South Hook LNG a Dragon LNG. Law yn llaw â'r holl ddiwydiannau hyn sy'n gysylltiedig â dyfrffordd Aberdaugleddau, mae gwawr newydd y diwydiant ymwelwyr ar gynnydd. Mae'r ddyfrffordd yn lle delfrydol i fwynhau gweithgareddau hamdden o bob math gan gynnwys hwylio, sgïo dŵr, tripiau cychod a chychod cyflym personol gyda Marina gwych i fwrw

angor. Mae'r marina yn gartref i amrywiaeth gwych o fwytai, bariau a siopau unigryw – i'r dim ar gyfer penwythnos i ffwrdd. Gyda gwesty newydd sbon ar y gweill ar gyfer y marina yn 2022, mae'r marina a'r ardal yn datblygu'n gyrchfan boblogaidd. Felly, mae newidiadau mawr ar droed yn Aberdaugleddau - nid yn unig fel tref ddiwydiannol hanesyddol ond hefyd fel tref ar gyfer twristiaeth a'r dyfodol.

**3 - Yr oes olew gyntaf**

Edrychwch yn ôl ar esblygiad y diwydiant olew ac ynni yn nyfrffordd Aberdaugleddau. O olew morfilod i LNG, mae ein sir fach ni yn ganolbwynt i gyfoeth o adnoddau!

Rhwng y straeon am yr awyrennau Sunderland enfawr a fu'n hedfan uwchlaw'r dociau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a'r hanesion amgylcheddol a hanesyddol anhygoel am y dref a'i chyffiniau, mae'r diwydiant ynni yn rhan ganolog o'n treftadaeth.

Dim ond tua 30 mlynedd a barodd oes olew gyntaf Aberdaugleddau - Yr Oes Olew Morfilod - wrth i oleuadau stryd newydd wedi'u pweru gan nwy a thechnoleg eraill ddisodli'r hen ddull. Erbyn 1906, dyma'r chweched porthladd pysgota mwyaf ym Mhrydain gyda 500 a mwy o bobl naill ai'n gweithio yn y diwydiant ei hun neu'n ymhél â chrefftau cysylltiedig. Parhaodd y fflyd bysgota i ffynnu gydol hanner cyntaf yr 20fed ganrif, a dim ond wrth i gyflenwadau pysgod yr Iwerydd ddechrau diflannu yn y 1950au y dechreuodd y fflyd bysgota edwino.

Yn 1960 agorwyd purfa olew cwmni Esso ar gyrion tref Aberdaugleddau, ac yna purfeydd a gorsafoedd pwmpio eraill megis BP, Regent (a ailenwyd yn Texaco), Gulf ac Amoco. Ymhen ychydig flynyddoedd, roedd y glannau'n frith o dderics, tanciau a jetis y diwydiant olew. Erbyn 1970, Aberdaugleddau oedd prif borthladd olew gwledydd Prydain, a'r mwyaf ond un yn Ewrop.
Wedi oes aur olew ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au, caeodd Esso yn fuan wedyn cyn i eraill ei ddilyn tan i'r olaf, Gulf, adael ym mis Rhagfyr 1997. Pan gaeodd y burfa ddiweddaraf yn 2014, collwyd 300 o swyddi a bu'n rhaid i lawer o'r gweithwyr symud i weithio ar rigiau olew Môr y Gogledd a thramor. Nawr mae'n gartref i LNG (LNG South Hook a Dragon LNG) a'r archwilio newydd i ynni adnewyddadwy sy'n golygu bod Aberdaugleddau yn parhau i gamu i'r dyfodol fel prifddinas ynni Cymru a'r DU.

**4 – Siwrne'r dyfrffordd**

Wedi'i sefydlu yn 1793, mae'r Ddyfrffordd wedi addasu i anghenion y byd erioed - cymerwch gip yn ôl ar lanw a thrai'r Ddyfrffordd, a pham mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair.

Ers sefydlu Aberdaugleddau yn 1793 gan Syr William Hamilton, mae porthladd Aberdaugleddau yn fwyaf enwog am ei gysylltiadau â'r diwydiant ynni. Hyd yn oed mor bell yn ôl â 1793, defnyddiwyd yr hafan ar gyfer y diwydiant olew cyntaf - olew morfilod, hynny yw. Pan gamodd y teulu Starbuck, Crynwyr o Nantucket ar fwrdd llong forfila'r Aurora yn 1793 a hwylio drosodd i Aberdaugleddau, daethant â dull newydd o oleuo gyda nhw. Roedd olew morfil yn adnabyddus am ei nodweddion goleuo gan ei fod yn llosgi'n fwy disglair nag olewau eraill fel gwêr a heb yr arogl brwnt. A dyna eni'r diwydiant olew ym mhorthladd Aberdaugleddau.

150 o flynyddoedd yn ddiweddarach, gwelwyd diwydiant olew newydd yn ennill ei blwyf yn y porthladd. Yn y 1950au daeth purfeydd olew yn rhan o'r olygfa ar arfordir Sir Benfro. Gan mai porthladd Aberdaugleddau sydd â'r harbwr naturiol dyfnaf ond un yn y byd (ar ôl Sydney, Awstralia), daeth yn sianel ddefnyddiol i ganiatáu i danceri olew mawr gludo miloedd o dunelli o olew crai er mwyn i'r purfeydd wneud lefelau gwahanol o gynhyrchion petrolewm. Daeth y buddsoddiad hwn â nifer o swyddi i weithwyr lleol yn ei sgil, gan hybu economi'r ardal. Yn anffodus, roedd y diwydiant newydd yn cynnwys peryglon newydd. Ar 15 Chwefror 1996, roedd tancer olew'r Sea Empress ar ei ffordd i burfa Texaco pan drawodd y creigiau ger penrhyn Santes Ann, ar gyrion Aberdaugleddau, gan ollwng ei gynnwys i'r môr a dinistrio'r traethau a'r bywyd gwyllt cyfagos. Dechreuodd gwaith glanhau enfawr wedyn, a fu'n llwyddiannus diolch i'r drefn. Bu llawer o ddigwyddiadau peryglus eraill fel ffrwydrad tancer yn Amoco ym mis Awst 1983, ffrwydrad Texaco ym mis Gorffennaf 1994 ac yn fwyaf diweddar y ffrwydrad ym mhurfa Chevron yn 2011 a laddodd bedwar. Mae'r newid i danwyddau amgen a chwilio am gyflenwadau tanwydd mwy cynaliadwy wedi arwain at ddirywiad y diwydiant olew ar y ddyfrffordd, a dim ond purfa Valero ym Mhenfro sydd ar waith erbyn hyn.

Y diwydiant diweddaraf oedd am ddefnyddio porthladd Aberdaugleddau i gludo'i gynnyrch oedd Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) yn 2002. Mae dwy derfynell LNG bellach yn gweithredu o'r porthladd - Dragon LNG a South Hook LNG. Mae'r nwy yn cael ei gludo ar longau enfawr sy'n defnyddio'r ddyfrffordd. Gyda'r pwysau cynyddol ar gwmnïau i fod yn fwy ecogyfeillgar, ni wyddom am ba hyd y bydd y diwydiant nwy ac olew yn parhau i weithredu o'r porthladd. Mae dulliau newydd fel ynni gwynt a solar yn cael eu cymeradwyo fwyfwy. Er hynny, gallai'r Porthladd barhau i ddefnyddio ei ased naturiol mwyaf i chwilio am ffyrdd o gynhyrchu ynni glân. Pwy a ŵyr, efallai y bydd ynni llanw a gwynt yn helpu i fraenaru'r tir ar gyfer ffynhonnell ynni fwy carbon niwtral mewn cenedlaethau i ddod. Mae digonedd ohonyn nhw i'w cael ar arfordir Aberdaugleddau wedi'r cwbl.

Cafodd y straeon hyn eu hymchwilio a'u hysgrifennu gan ddisgyblion Ysgol Aberdaugleddau, sydd wedi defnyddio eu creadigrwydd i adrodd hanes Aberdaugleddau yn eu geiriau eu hunain.